

Cyngor Tref Criccieth

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd am 7.00 o'r gloch, nos Fawrth , **12 Chwefror 2019** yn Siambr y Cyngor, Stryd Fawr, Criccieth.

Gweddi agoriadol

1-02/19: Presennol

Cadeirydd : Cyng. Elizabeth George

Cyng. Robert Cadwalader; Cyng. Phil Jones; Cyng. Eirwyn Williams; Cyng. Wayne Roberts; Cyng. William A Evans; Cyng. Robert T Price; Cyng. Dr Ian Rees; Cyng. Dr E Tudor Jones; Cyng. Sian Williams

Clerc – Dr Catrin Jones.

2-02/19 Ymddiheuriadau:

Cyng. Dafydd Lloyd

3-02/19: Datgan diddordeb

Cyng. William A Evans, Cyng. Phil Jones Cyng. Wayne Roberts ar gyfer:

7(a) C19/0061/35/LL Estyniadau a newidiadau i'r to – Gwynt y Mynydd, Muriau, Criccieth, LL52 ORU

7(b) C19/0064/35/LL Cais i godi ports a ffenest dormer o flaen yr eiddo– Bwlch yr Awel, Muriau, Criccieth, LL52 ORU

4-02/19 Cadarnhau cofnodion mis Ionawr 2019

Cadarnhawyd a llofnodwyd y cofnodion yn unol â'r gyfraith.

5-02/19 Eitemau brys ac er gwybodaeth (trwy law'r Cadeirydd/Clerc)

Materion er gwybodaeth yn unig – ni chaniateir penderfyniadau

- a. Trafnidiaeth Cymru – nodwyd bod ymateb cadarnahol wedi dod i law ar 6ed Chwefror yn rhoi gwybodaeth am gynlluniau Trafnidiaeth Cymru ar gyfer gorsafoedd trenau rhwng Machynlleth a Phwllheli – roedd rhain yn cynnwys rhai gwelliannau erbyn Rhagfyr 2019 a rhai eraill mwy tymor hir. Bydd arolwg manwl o bobo gorsaf ar draws ei rhwydwaith yn cychwyn yn y misoedd nesaf. Roedd hyn yn rhan o'r cynllun hadnewyddu 5 mlynedd.

6-02/19: Gohebiaeth

- a. Cyngor Gwynedd - Adolygiad Cludiant - e-bost 21 Ionawr 2019

Nodwyd bod Cyngor Gwynedd wedi penderfynu cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r o rwydwaith cludiant cyhoeddus - bydd gwybodaeth yn cael ei gasglu hyd at 30 Ebrill 2019. Roedd holiadur wedi ei lunio a'u gylchredeg. Bydd yr adolygiad yn cymryd blwyddyn a hanner i gwblhau - y bwriad oedd cyrraedd anghenion mwyafrif bobl Gwynedd.

Penderfyniad:

Derbyn y wybodaeth – cynghorwyr i ddanfôn ymatebion unigol i'r holiadur.

b. Swyddfa Archwilio Cymru – adroddiadau:

- Rheoli Ariannol a Llywodraethu Cyngorau Cymuned a Thref 2017-18

Nodwyd yr adroddiad a oedd wedi ei gylchredeg yn nodi bod y swm o arian a oedd yn cael ei rheoli gan gynghorau lleol yng Nghymru yn parhau i gynyddu. Fodd bynnag, mewn gormod o gynghorau roedd safon rheoli ariannol a llywodraethu yn siomedig o hyd gan fod nifer y barnau archwilio amodol wedi dyblu i 340 o gynghorau. Yn ogystal bu rhaid cyhoeddi adroddiadau er budd y cyhoedd, neu i wneud argymhellion ffurfiol i wyth o gynghorau yn 2018. Nid oedd nifer sylweddol o gynghorau yn deall eu cyfrifoldebau statudol am baratoi cyfrifon a sicrhau bod trefniadau priodol ar waith ar gyfer yr archwiliad statudol, gan gynnwys gwneud trefniadau i'w hetholwyr archwilio'r cyfrifon. Byddai archwiliadau cynghorau cymuned a thref ar gyfer 2018-19 a 2019-20 yn parhau i ganolbwyntio ar feysydd lle mae archwilwyr yn nodi cyfle i wella o ran trefniadau'r cyngor ac yn ystod y cyfnod hwn, bydd yr archwilydd yn adolygu digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau archwilio presennol er mwy sicrhau eu bod yn addas at y diben.

Nodwyd bod y Cyngor Tref ym mis Tachwedd 2018 wedi derbyn manylion tystysgrif barn y BDO a barn yr archwiliad arfaethedig ei bod am gyhoeddi tystysgrif ac adroddiad diamod - ac roedd hyn a thrafodaethau'r Cyngor wedi'u nodi yng nghyfarfod Mis Rhagfyr o'r Cyngor Tref. Gweler cofnod 9-02/19 isod.

Penderfyniad

Derbyn y wybodaeth a bod y Cyngor Tref yn cymryd y dyletswyddau yma o ddifrif ac yn barod i wella a dysgu o ymarfer da.

- Trefniadau Archwilio Mewnol Cyngorau Tref a Chymuned yng Nghymru

E-bost 23 Ionawr 2019

Roedd adroddiad wedi ei gylchredeg ar drefniadau archwilio mewnol ar sail sampl o 113 o 735 cyngor tref a chymuned. Nodwyd y casgliadau ar gyfer y cynghorau yn y sampl:

- Nid oeddent yn medru penderfynu a oedd trefniadau archwilio mewnol yn eu lle ar gyfer tua un o bob deg cyngor;
- Nid oedd gan un o bob pum cyngor tref archwilydd mewnol digon annibynnol;
- Roedd gan ddwy ran o dair o gynghorau yn y sampl gylch gorchwyl annigonol â'u harchwilydd mewnol;
- Roedd casgliadau'r archwiliad mewnol yn anghywir yn un o bob tri chyngor;
- Roedd anghysondebau yn y broses adrodd ar archwilio mewnol yn flynyddol;

- Nid oedd rhan fwyaf o'r cynghorau yn nodi'n ffurfiol sut maent yn mynd i'r afael ag argymhellion ynghylch archwilio mewnol;
- Roedd traean o'r archwilwyr mewnol y cyfwelwyd a hwy yn teimlo y byddai profion ychwanegol ac arweiniad ynglŷn â chodi ffioedd yn fuddiol.

Byddai'r Archwilydd Cyffredinol yn adolygu'r trefniadau archwilio ar gyfer y sector yn ystod 2019-20.

Penderfyniad

Derbyn yr adroddiad a nodwyd bod y Cyngor Tref yn cymryd y dyletswyddau yma o archwilio mewnol o ddifrif a dysgu o ymarfer da.

- c. Gorchymyn Cyngor Gwynedd Gwahardd a Chyfyngu Aros a Mannau Parcio ar y Stryd (Ardal Dwyfor) 2019 - e-bost 1 Chwefror 2019

Gwybodaeth wedi ei gylchredeg – cynnig dim aros o gwbl (Ffordd Ddi-ddosbarth) rhwng Ffordd Penpaled a Wellington Terrace ar ochr ddwyreiniol y ffordd:

Penderfyniad

Cytuno gyda'r cynnig.

- d. Heddlu Gogledd Cymru - Diwygio Blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throsedd - Ionawr 2019 - e-bost 1 Chwefror 2019

Cynllun wedi ei gylchredeg er gwybodaeth

Penderfyniad

Derbyn er gwybodaeth.

- e. Neuadd Goffa Criccieth – e-bost 14 Ionawr 2019

Derbyniwyd llythyr diolch i'r Cyngor Tref am ei gyfraniad i'r Neuadd Goffa sydd yn adnodd pwysig i'r dref a'r cyffiniau - nodwyd y flwyddyn arbennig a oedd wedi bod ar gyfer coffa'r Rhyfel Byd Cyntaf ac aelodau swyddogion y Cyngor Tref am y gwaith ar gyfer creu cyfres o ddigwyddiadau mor arbennig.

Penderfyniad

Derbyn gyda diolch.

- f. Cyngor Gwynedd - Rhaglen Waith Trafnidiaeth a Phrifyrdd - Chwefror 2019

Gwybodaeth wedi ei gylchredeg er gwybodaeth am waith ar y droedffordd yn Cae Rhys, Criccieth.

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth

7-02/19: Ceisiadau Cynllunio

- a. C19/0061/35/LL Estyniadau a newidiadau i'r to – Gwynt y Mynydd, Muriau, Criccieth, LL52 ORU
Penderfyniad
Dim gwrthwynebiad
- b. C19/0064/35/LL Cais i godi ports a ffenest dormer o flaen yr eiddo— Bwlch yr Awel, Muriau, Criccieth, LL52 ORU
Penderfyniad
Dim gwrthwynebiad
- c. C19/0100/35/AC Cais i ryddhau amod 16 o gais a ganiatawyd o dan gyfeirnod C16/0564/35 LL yn ymwneud a thirlunio - Waen Helyg, Criccieth, LL52 OBJ
Penderfyniad
Gwrthwynebu - barn y Cyngor yw bod amod 16 ar gyfer tirlunio yn hanfodol bwysig i'r cais cynllunio ac ni ddylid ei rhyddhau.
- d. C18/0698/35/LL- Y Pines Nodi bod llythyr gwrthwynebiad wedi ei gyflwyno gan drigolion i adran gynllunio Cyngor Gwynedd – ac wedi ei gylchredeg er gwybodaeth .
Penderfyniad
Derbyn y llythyr er gwybodaeth - roedd y Cyngor eisoes wedi danfon gwrthwynebiad i'r cais hwn.

8-02/19: Llenwi sedd wag y Cyngor Tref

Roedd un llythyr cais yn mynegi diddordeb yn y sedd wag wedi cael ei dderbyn erbyn y dyddiad cau yn dilyn hysbysebu gan y Cyngor a'r llythyr wedi ei gylchredeg i aelodau'r Cyngor

Penderfyniad: I gyfethol a chroesawu Ms Angela Hughes yn Gynghorydd i'r Cyngor Tref. Disgwylir i Ms Hughes lenwi'r ffurflen derbyn swydd erbyn y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref ym mis Mawrth.

9-02/19 Awdit Allanol Cyfrifon 2017/18

Cylchredwyd gohebiaeth y BDO yn nodi ei bod wedi cwblhau'r archwiliad uchod ar 22 Ionawr 2019 a hefyd y ffurflen flynyddol ac adroddiad y BDO. Yn unol â'r gofynion roedd y Clerc wedi postio'r rhybudd o ganlyniad yr archwiliad ar hysbysfwrdd y Cyngor am gyfnod o 14 diwrnod a hefyd ar safle We'r Cyngor gyda chopi o'r ffurflen flynyddol a'r wybodaeth angenrheidiol. Roedd un mater wedi dod i sylw'r archwilwyr ac roedd yr adroddiad wedi ei gylchredeg a hefyd wedi ei drafod yng nghyfarfod Mis Rhagfyr 2018 o'r Cyngor sef bod cofrestr asedau'r Cyngor yn cael ei ddiweddarau i gynnwys dyddiad caffael, cost prynu a lleoliad pob ased sydd ganddo cyn gynted â phosib neu o leiaf cyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol. Argymhellid y BDO: "Dylai bod cofrestr asedau gan y cyngor i helpu sicrhau bod gwerth yr asedau a'r buddsoddiadau a gofnodir yn gywir, cyn belled â bod hynny'n bosibl, ac i sicrhau bod y cyngor yn diogelu ei asedau. Dylai'r Archwilydd Mewnol ddilysu cywirdeb cofrestr o'r fath yn ei adolygiad blynyddol o reolaeth fewnol y cyngor."

Penderfyniad:

Nodwyd bod barn archwilio wedi cael ei rhoi ac nad oedd unrhyw faterion wedi dod i'w sylw a oedd yn peri pryder nad yw'r ddeddfwriaeth a'r gofynion rheoleiddio perthnasol wedi'u bodloni a bod y ffurflen flynyddol wedi cael ei chymeradwyo a'i derbyn gan y Cyngor. Roedd y mater yn codi hefyd

wedi cael ei gyflwyno a nodwyd bod y Clerc yn gweithio ar y gofrestr asedau i'w diwygio a'i gwblhau cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

10-02/19 Adolygiad o Is-bwyllgorau'r Cyngor

Roedd papur trafod ar is-bwyllgorau'r Cyngor wedi ei gylchredeg ar gyfer trafodaeth gyda'r cynnig i ddiwygio'r is-bwyllgorau:

Yng nghyfarfod Mis Mai 2018 cytunwyd i adolygu'r pwyllgorau a'r termau ac mae ystyriaeth a diwygiad wedi ei gytuno i'r Is-bwyllgor Cyllid, sydd bellach â chylch gorchwyl yn cynnwys materion polisi a rheolaethol, a hefyd newidiadau i'r Grŵp Llywio Cynllun Cymunedol, yn sgil ymgynghoriad gyda'r gymuned drwy'r gweithdai a gynhaliwyd yn 2018.

Gwahoddwyd y Cyngor i ystyried ymhellach i resymoli nifer yr is-bwyllgorau.

Argymhellion:

- i. I gyfuno'r Is-bwyllgor Cynllunio a Threfniadaeth a'r is-bwyllgor Mwynderau yn un Is-Bwyllgor. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, nid yw'r is-bwyllgor wedi cwrdd, ac mae un cyfarfod wedi cymryd lle o'r is-bwyllgor Cynllunio a Thrafnidiaeth. Mae'n bwysig fodd bynnag bod gan y Cyngor Tref Is-bwyllgor y meddir cyfeirio materion iddo.

Penderfyniad:

I gyfuno'r Is-bwyllgor Cynllunio a Threfniadaeth a'r is-bwyllgor Mwynderau yn un Is-Bwyllgor Cynllunio, Trafnidiaeth a Mwynderau a chymeradwyo'r Cylch Gorchwyl a'r aelodaeth:

Cadeirydd, Is-gadeirydd, Wayne Roberts, Phil Jones, William E Evans, Dafydd Lloyd, Eirwyn Williams

- ii. I ddiddymu'r Pwyllgor Grantiau (sydd heb gyfarfod yn ystod y blynyddoedd diweddar) , a chyfeirio unrhyw faterion grantiau mae'r Cyngor Tref yn ystyried sydd angen cyngor neu weithred arnynt i'r Is-bwyllgor Cyllid, Polisi a Rheolaethol. Nid yw'r Pwyllgor hwn wedi cwrdd yn ystod y blynyddoedd diweddar.

Penderfyniad:

I ddiddymu'r Pwyllgor Grantiau a chymeradwyo'r Cylch Gorchwyl diwygiedig i'r Is-bwyllgor Cyllid, Polisi a Rheolaethol.

- iii. Mae gwaith Grŵp Llywio Cofio Cyfraniad Criccieth wedi dirwyn i ben, ac os oes materion am y prosiect yn codi, meddir eu cyfeirio at y Cyngor Tref.

Penderfyniad:

I ddiddymu Grŵp Llywio Cofio Cyfraniad Criccieth ac os oes materion am y prosiect yn codi, eu cyfeirio at y Cyngor Tref.

11-02/19 Ceisiadau am gyfraniadau ariannol

Roedd ceisiadau pellach wedi ei chylchredeg i aelodau. Ystyriaeth o dan Adran 137 (4) (a) o Ddeddf Lywodraeth Leol 1972 :

Penderfyniad:

Mynwent Newydd Llanystumdwy – dim cyfraniad – ond i ystyried eto os oes angen penodol yn codi
Clwb Pêl Droed Llanystumdwy – dim cyfraniad – ond i ystyried eto os oes angen penodol yn codi
Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gogledd Cymru – dim cyfraniad

12-02/19: Prosiect Cofio Cyfraniad Criccieth - diweddariad

Nodwyd bod cais wedi ei gyflwyno am wobwr i Un Llais Cymru ar gyfer Menter Treftadaeth Orau ar gyfer y Prosiect. Bydd angen i'r rhai sydd ar restr fer rhoi cyflwyniad yng nghynhadledd Un Llais Cymru i'w gynnal ar 28 Mawrth 2019.

Hefyd, derbyniwyd adroddiad gwerthuso clodwiw o'r Prosiect a oedd wedi ei gylchredeg i aelodau'r Cyngor.

Penderfyniad:

Derbyn er gwybodaeth a chytuno y dylid ariannu cyfieithu'r adroddiad.

13-02/19 Cynllun Cymunedol Criccieth – diweddariad

- a. Nodwyd bod y bid i Arloesi Gwynedd o dan gynllun Strydoedd Unigryw wedi bod yn llwyddiannus - golyga hyn swm o £16,000 o'r gronfa a swm arian cyfatebol £1,500 a oedd wedi ei gytuno gan y Cyngor Tref. Roedd hwn yn brosiect cyffrous i'r dref gydag angen rheolwr prosiect i gydlynu'r gwaith ar ran y Cyngor Tref mewn partneriaeth gyda'r Fforwm Busnes er mwyn sicrhau bod gofynion y prosiect yn cael eu cyflawni.

Penderfyniad: I benodi Mr Cynan Jones yn rheolwr prosiect.

- b. Nodwyd bod bid i Arloesi Gwynedd o dan gynllun Peilota wedi ei gyflwyno ar gyfer astudiaeth dichonoldeb i Adeilad y Llyfrgell. Roedd cyllideb fyny at £10k ar gael. Bydd angen arian cyfatebol o 30% (nid 10%) os bydd y bid yn llwyddiannus.

Penderfyniad: - I gytuno bod swm cyfatebol fyny at £3k yn cael ei neilltuo o gyllideb y Cynllun Cymunedol os bydd y bid yn llwyddiannus.

- c. Yn dilyn trafodaeth, nodwyd bod Grŵp Llywio'r Cynllun Cymunedol yn cynnig bod y 5 gweithgor yn cael ei rhesymoli i dri - sef, Hwb Criccieth, Grŵp Ieuenctid a Grŵp Economi. Roedd y cydlynnydd, Sian Shakespear yn barod i addasu'r drafft cynllun i adlewyrchu hyn am ffi ychwanegol ar gyfer yr amser.

Penderfyniad: Cytuno i ofyn i Sian Shakespear ymgymryd â'r gwaith.

14-02/19 Dyfodol Adeilad Cyngor Tref Criccieth a'r Llyfrgell

Nodwyd bod gohebiaeth yn cymryd lle gyda'r cyfreithiwr â Chyngor Gwynedd am adeilad y Llyfrgell. Roedd ymateb i'w ddisgwyl gan Gyngor Gwynedd.

Penderfyniad:

Derbyn y wybodaeth

15-02/19 Trafnidiaeth yng Nghriccieth – cwynion a digwyddiadau difrifol

Nodwyd bod y wybodaeth am ganlyniad yr asesiad gan Gyngor Gwynedd dal i'w ddisgwyl.

Penderfyniad:

Derbyn y wybodaeth

16-02/19 Torri gwair yn y dref

Nodwyd bod y bil am y torri gwair ychwanegol gan Gyngor Gwynedd i'w ddisgwyl a bod y Clerc wedi gofyn amdano.

Penderfyniad:

Derbyn y wybodaeth.

17-02/19 Parcio yng Nghriccieth

Dim materion newydd i'w hadrodd.

Penderfyniad:

Dylid holi Cyngor Gwynedd eto pryd bydd arwyddion parcio priodol ger y Blue China yn cymryd lle i adlewyrchu'r ffaith bod gorchymyn dim aros o gwbl drwy'r flwyddyn yn gyfredol.

18-02/19 Torri coed yng Nghriccieth

Dim byd i'w adrodd.

19-02/19 Meinciau Tref Criccieth

Dim byd i'w adrodd.

20-02/19 Llwybrau Cyhoeddus

Ad-daliad o £325.00 wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd ar gyfer 2018/19

Penderfyniad:

Derbyn y wybodaeth.

21-02/19 Hysbysfwrdd y Cyngor Tref

Derbyniwyd adroddiad gan y Cyng Robert Cadwalader i opsiynau am yr hysbysfwrdd.

Penderfyniad:

Diolch i'r Cyng Cadwalader am ei adroddiad a chyfeirio'r mater i'r Is- Bwyllgor Cynllunio, Trafnidiaeth a Mwynderau ar gyfer dod â chynnig gerbron y Cyngor Tref.

22-02/19 Derbyniadau

Cyngor Gwynedd – ad-daliad tuag at gostau cynnal llwybrau cyhoeddus £325.00

23-02/19: Taliadau

• Cyllid y Wlad Yswiriant Gwladol(PAYE)	£72.70 (siec 101301)
• Cyflog y Clerc (Ionawr)	£660.18 (siec 101302)
• R.J Electrics	£8,742.00 (siec 101303)
• Neuadd Goffa Criccieth	£7,670.00 (siec 101304)
• C&MJ Jones (Cofio Cyfraniad Criccieth)	£360.00 (siec 101305)

Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc i dalu'r biliau.

Penderfyniad:

23-02/19: Materion caeedig (i aelodau'n unig)

Daeth y cyfarfod i ben am 8.00 y.h.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Tref ar **nos Fawrth 12 Mawrth 2019**.

****Bydd y rhaglen yma yn cau 4 Mawrth 2019****